



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2001 Rhif. 1438 (Cy.100)

2001 No. 1438 (W.100)

**HENEBION,
CYMRU**

**ANCIENT MONUMENTS,
WALES**

**Rheoliadau Henebion
(Ceisiadau am Gydsyniad Heneb
Gofrestredig) (Ffurflenni a
Manylion Cymraeg) 2001**

**The Ancient Monuments
(Applications for Scheduled
Monument Consent) (Welsh Forms
and Particulars) Regulations 2001**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note does not form part of the Regulations)

Mae Atodlen 1 i Ddeddf Henebion a Mannau Archaeolegol 1979, yn rhoi pŵer i wneud rheoliadau i ragnodi'r ffurflenni sydd i'w defnyddio mewn ceisiadau am gydsyniad heneb gofrestredig. Mae'r pŵer hwn bellach yn arferadwy, mewn perthynas â Chymru, gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Schedule 1 to the Ancient Monuments and Archaeological Areas Act 1979, confers a power to make regulations to prescribe the forms for use in applications for scheduled monument consent. This power is now exercisable, in relation to Wales, by the National Assembly for Wales.

Rhagnodwyd fersiwn Saesneg o'r ffurflenni gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gymru, ar y cyd gydag Ysgrifennydd yr Amgylchedd trwy Reoliadau Henebion (Ceisiadau am Gydsyniad Heneb Gofrestredig) 1981 ("y prif Reoliadau")

The Secretary of State for Wales, in conjunction with the Secretary of State for the Environment, prescribed an English version of the forms by The Ancient Monuments (Applications for Scheduled Monument Consent) Regulations 1981 ("the principal Regulations")

Mae adran 26(3) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg yn ymestyn y pŵer a grybwyllir uchod i alluogi'r Ysgrifennydd Gwladol (neu yng Nghymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru) i ragnodi ffurf dogfen ar wahân, neu ffurf geiriau ar wahân, yn Gymraeg ac yn Saesneg ac, yn achos dogfen, ffurflen sy'n rhannol Gymraeg a rhannol Saesneg.

Section 26(3) of the Welsh Language Act 1993 extends the above-mentioned power to enable the Secretary of State (or, in Wales, the National Assembly for Wales) to prescribe separate forms of a document, or separate forms of words, in Welsh and in English and, in the case of a document, a form partly in Welsh and partly in English.

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi'r fersiwn Gymraeg o'r ffurflenni perthnasol y gellir eu defnyddio yng Nghymru yn hytrach na fersiwn Saesneg y ffurflenni a ragnodwyd gan y prif Reoliadau.

These Regulations prescribe the Welsh version of the relevant forms which may be used in Wales instead of the English version of the forms prescribed by the principal Regulations.

Mae rheoliad 3(1) o'r Rheoliadau hyn yn darparu

Regulation 3(1) of these Regulations provides for the

mai'r ffurflen a nodir yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau hyn fydd fersiwn Gymraeg ragnodedig y Ffurflen Gais yn Atodlen 1 i'r prif Reoliadau.

Mae rheoliad 3(2) o'r Rheoliadau hyn yn darparu mai'r ffurflenni a nodir yn Rhan I o Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn fydd fersiynau Cymraeg rhagnodedig y Ffurflenni Tystysgrif yn Rhan I o Atodlen 2 i'r prif Reoliadau.

Mae rheoliad 3(3) o'r Rheoliadau hyn yn darparu mai'r ffurflen a nodir yn Rhan II o Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn fydd fersiwn Gymraeg ragnodedig y Ffurflen Hysbysu yn Rhan II o Atodlen 2 i'r prif Reoliadau.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

form set out in Schedule 1 to these Regulations to be the prescribed Welsh version of the Form of Application in Schedule 1 to the principal Regulations.

Regulation 3(2) of these Regulations provides for the forms set out in Part I of Schedule 2 to these Regulations to be the prescribed Welsh version of the Forms of Certificate in Part I of Schedule 2 to the principal Regulations.

Regulation 3(3) of these Regulations provides for the form set out in Part II of Schedule 2 to these Regulations to be the prescribed Welsh version of the Form of Notice in Part II of Schedule 2 to the principal Regulations.

These Regulations apply to Wales.

2001 Rhif. 1438 (Cy.100)**HENEBION,
CYMRU****Rheoliadau Henebion
(Ceisiadau am Gydsyniad Heneb
Gofrestredig) (Ffurflenni a
Manylion Cymraeg) 2001***Wedi'u gwneud**5 Ebrill 2001**Yn dod i rym**1 Mai 2001*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd gan baragraffau 1(1), 2(1) a 2(2) o Atodlen 1 i Ddeddf Henebion a Mannau Archaeolegol 1979(a) fel y'i hymestynnwyd gan adran 26(3) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993(b) ac a freinir bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn berthnasol i Gymru(c), a phob pwer arall sy'n ei alluogi yn y cyswllt hwnnw.

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Henebion (Ceisiadau am Gydsyniad Heneb Gofrestredig) (Ffurflenni a Manylion Cymraeg) 2001 a deuant i rym ar 1 Mai 2001.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "y prif Rheoliadau" yw Rheoliadau Henebion (Ceisiadau am Gydsyniad Heneb Gofrestredig) 1981(ch).

Ffurflenni rhagnodedig

3.-(1) Y ffurflen a nodir yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau hyn drwy hyn yw'r fersiwn Gymraeg rhagnodedig y gellir ei defnyddio yn hytrach na'r ffurflen gyfatebol

(a) 1979 p.46.

(b) 1993 p.38.

(c) Gweler Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(ch) O.S. 1981/1301.

2001 No. 1438 (W.100)**ANCIENT MONUMENTS,
WALES****The Ancient Monuments
(Applications for Scheduled
Monument Consent) (Welsh Forms
and Particulars) Regulations 2001***Made**5th April 2001**Coming into force**1st May 2001*

The National Assembly for Wales makes the following Regulations in exercise of the powers conferred by paragraphs 1(1), 2(1) and 2(2) of Schedule 1 to the Ancient Monuments and Archaeological Areas Act 1979(a) as extended by section 26(3) of the Welsh Language Act 1993(b) and now vested in the National Assembly for Wales so far as they relate to Wales(c), and of all other powers enabling it in that behalf.

Citation, commencement and application

1.-(1) These Regulations may be cited as the Ancient Monuments (Applications for Scheduled Monument Consent) (Welsh Forms and Particulars) Regulations 2001 and shall come into force on 1st May 2001.

(2) These Regulations apply to Wales.

Interpretation

2. In these Regulations, "the principal Regulations" means the Ancient Monuments (Applications for Scheduled Monument Consent) Regulations 1981(d).

Prescribed forms

3.-(1) The form set out in Schedule 1 to these Regulations is hereby the prescribed version in Welsh which may be used instead of the corresponding form

(a) 1979 c.46.

(b) 1993 c.38.

(c) See the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

(d) S.I. 1981/1301.

yn Atodlen 1 i'r prif Reoliadau i'r diben a nodir yn rheoliad 2 o'r prif Reoliadau.

(2) Y ffurflenni a nodir yn Rhan I o Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn drwy hyn yw'r fersiynau Cymraeg rhagnodedig y gellir eu defnyddio yn hytrach na'r ffurflenni cyfatebol yn Rhan I o Atodlen 2 i'r prif Reoliadau i'r diben a nodir yn rheoliad 3(1) o'r prif Reoliadau.

(3) Y ffurflen a nodir yn Rhan II o Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn drwy hyn yw'r fersiwn Gymraeg ragnodedig y gellir ei defnyddio yn hytrach na'r ffurflen gyfatebol yn Rhan II o Atodlen 2 i'r prif Reoliadau i'r diben a nodir yn rheoliad 3(2) o'r prif Reoliadau.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(a).

5 Ebrill 2001

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

in Schedule 1 to the principal Regulations for the purpose set out in regulation 2 of the principal Regulations.

(2) The forms set out in Part I of Schedule 2 to these Regulations are hereby the prescribed versions in Welsh which may be used instead of the corresponding forms of certificate in Part I of Schedule 2 to the principal Regulations for the purpose set out in regulation 3(1) of the principal Regulations.

(3) The form set out in Part II of Schedule 2 to these Regulations is hereby the prescribed version in Welsh which may be used instead of the corresponding form in Part II of Schedule 2 to the principal Regulations for the purpose set out in regulation 3(2) of the principal Regulations.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(a).

5th April 2001

D. Elis-Thomas

The Presiding Officer of the National Assembly

(a) 1998 p.38.

(a) 1998 c.38.

ATODLEN/SCHEDULE 1

FFURFLEN GAIS AM GYDSYNIAD HENEB GOFRESTREDIG

CAIS AM GYDSYNIAD HENEB GOFRESTREDIG

DEDDF HENEBION A MANNAU ARCHAEOLEGOL 1979

(I'w llenwi gan neu ar ran y ceisydd mewn

LLYTHRENNAU BRAS neu deipysgrif)

1. Y ceisydd

Enw

Cyfeiriad

.....Cod Post.....Rhif ffôn.....

2. Meddiannydd yr heneb - os nad y ceisydd

Enw

Cyfeiriad

.....Cod Post.....Rhif ffôn.....

3. Yr heneb y mae'r cais yn berthnasol iddi

Enw'r heneb (os oes un)

Cyfeiriad neu leoliad

Rhif Sirol yr Heneb

Cyfeiriad y Grid Cenedlaethol

4. Disgrifiad o'r gweithfeydd arfaethedig

.....

.....

.....

5. Rhestr o'r planiau a'r lluniadau sy'n cyd-fynd â'r cais

6. Unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol i'r cais

Yr wyf i/ ydym ni drwy hyn yn gwneud cais am gydsyniad heneb gofrestredig ar gyfer y gweithfeydd a ddisgrifir yn y cais hwn ac a ddangosir ar y planiau a'r lluniadau sy'n cyd-fynd â'r cais.

Llofnod Dyddiad.....

Ar ran*

*Os yw'r cais yn cael ei drin a'i drafod gan asiant y dylid anfon gohebiaeth ato, nodwch y canlynol -

Enw'r asiant

Cyfeiriad yr asiant

.....Cod Post.....Rhif ffôn.....

ATODLEN/SCHEDULE 2

RHAN/PART I

FFURFLENNI AR DYSTYSGRIF AT DDIBENION

PARAGRAFF 2(1) O ATODLEN 1 I'R DDEDDF

Tystysgrif yn unol â pharagraff 2(1)(a)

Ardystir drwy hyn nad oedd unrhyw berson arall heblaw'r ceisydd yn berchennog (x) yr heneb y mae'r cais sydd ynghlwm yn berthnasol iddi ar ddechrau'r cyfnod o un diwrnod ar hugain a oedd yn diweddu ar ddyddiad y cais.

Llofnod Dyddiad.....

Tystysgrif yn unol â pharagraff 2(1)(b)

Ardystir drwy hyn fod y ceisydd wedi rhoi'r hysbysiad sy'n ofynnol am y cais sydd ynghlwm i bob person heblaw'r ceisydd a oedd, ar ddechrau'r cyfnod o un diwrnod ar hugain a oedd yn diweddu ar ddyddiad y cais, yn berchenogion (x) yr heneb y mae'r cais yn berthnasol iddi, sef (y).

Llofnod Dyddiad.....

Tystysgrif yn unol â pharagraff 2(1)(c)

Ardystir drwy hyn -

- (1) na all y ceisydd roi tystysgrif yn unol â naill ai paragraff 2(1)(a) neu (b) o Atodlen 1 i Ddeddf Henebion a Mannau Archaeolegol 1979;
- (2) bod y ceisydd wedi rhoi'r hysbysiad sy'n ofynnol am y cais sydd ynghlwm i'r personau canlynol a oedd, ar ddechrau'r cyfnod o un diwrnod ar hugain a oedd yn diweddu ar ddyddiad y cais, yn berchenogion (x) yr heneb y mae'r cais sydd ynghlwm yn berthnasol iddi, sef (y); a
- (3) bod y ceisydd wedi cymryd y camau sydd ar gael yn rhesymol iddo i gael gwybod enwau a chyfeiriadau gweddill y personau a oedd, ar ddechrau'r cyfnod hwnnw yn berchenogion (x) yr heneb honno, a'i fod heb lwyddo i'w cael.

Llofnod Dyddiad.....

Tystysgrif yn unol â pharagraff 2(1)(d)

Ardystir drwy hyn na all y ceisydd roi tystysgrif yn unol â pharagraff 2(1)(a) o Atodlen 1 i Ddeddf Henebion a Mannau Archaeolegol 1979, ond ei fod wedi cymryd y camau sydd ar gael yn rhesymol iddo i gael gwybod enwau a chyfeiriadau y personau eraill a oedd, ar ddechrau'r cyfnod o un diwrnod ar hugain a oedd yn diweddu ar ddyddiad y cais, yn berchenogion (x) yr heneb y mae'r cais sydd ynghlwm yn berthnasol iddi a'i fod heb lwyddo i'w cael.

Llofnod Dyddiad.....

TROEDNODIADAU

(x) ystyr "perchennog" yw person sydd am y tro yn berchennog ystâd mewn perthynas â'r ffi syml yn yr heneb neu sydd â hawl tenantiaeth i'r heneb a roddwyd neu a estynnwyd am dymor sicr o flynyddoedd nad oes lai na saith mlynedd ohono yn weddill.

(y) Rhowch yr enwau a'r cyfeiriadau

ATODLEN/SCHEDULE 2

RHAN/PART II

FFURFLENNI HYSBYSU AT DDIBENION

PARAGRAFF 2(1) O ATODLEN 1 I'R DDEDDF

Hysbysiad o gais am gydsyniad heneb gofrestredig

(Dilëwch y geiriau mewn bachau petryal, fel y bo'n briodol, gan hepgor y bachau.)

Mae'r hysbysiad hwn yn ymwneud â'r heneb yn (x).

Bydd cais yn cael ei wneud [gan] [ar ran] (y) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru am gydsyniad heneb gofrestredig o dan Ddeddf Henebion a Mannau Archaeolegol 1979 i gyflawni'r gweithfeydd canlynol: (z).

Rhoddir cyfle i gyflwyno sylwadau mewn perthynas â'r cais gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru cyn penderfynu'r cais.

Llofnod Dyddiad.....

TROEDNODIADAU

(x) Rhowch gyfeiriad neu leoliad yr heneb, a'r enw (os oes un).

(y) Rhowch enw a chyfeiriad y ceisydd.

(z) Rhowch ddisgrifiad byr o'r gweithfeydd arfaethedig.

CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

2001 Rhif. 1438 (Cy.100)

**HENEBION,
CYMRU**

Rheoliadau Henebion
(Ceisiadau am Gydsyniad Heneb
Gofrestredig) (Ffurflenni a
Manylion Cymraeg) 2001

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

2001 No. 1438 (W.100)

**ANCIENT MONUMENTS,
WALES**

The Ancient Monuments
(Applications for Scheduled
Monument Consent) (Welsh Forms
and Particulars) Regulations 2001

©H Hawlfraint y Goron 2000

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery
Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr
Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

£2.00

W/222/08/01

ON

© Crown copyright 2000

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited
under the authority and superintendence of Carol Tullo,
Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of
Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090314-5



9 780110 903149